Senedd Cymru
**Lleoliadau a Digwyddiadau'r Senedd**

# **Adolygiad o'r Defnydd o'r Ystad:** Cwestiynau Cyffredin

Mawrth 2024

## Pa newidiadau y cytunwyd arnynt?

Estyn y cyfnod ar gyfer archebu digwyddiadau o 6 i 11 mis.

Cytunwyd ar y meini prawf canlynol sydd wedi'u cryfhau ar gyfer asesu addasrwydd ceisiadau newydd ar gyfer digwyddiad a noddir gan Aelod o'r Senedd.

a) Rhaid i bob gweithgaredd gyd-fynd â Busnes y Senedd, ei phwerau, neu ei blaenoriaethau strategol (gofyniad wrth wneud cais).

b) Rhoddir blaenoriaeth i weithgareddau sy'n bodloni'r meini prawf a ganlyn:

i. maent yn cyd-fynd yn glir ac yn agos â swyddogaethau seneddol yr Aelodau;

ii. mae ganddynt apêl eang o ran y pwnc y maent yn ymdrin ag ef;

iii. maent yn adlewyrchu patrwm yr wythnos fusnes; ac

iv. maent yn adlewyrchu natur y lleoliadau ac yn hyrwyddo'r Senedd fel cyrchfan i ymwelwyr.

c) Rhoddir ystyriaeth i'r canlynol wrth benderfynu ar gais:

i. pa mor aml y gwneir ceisiadau gan Aelod neu'r sefydliad allanol sy'n defnyddio'r ystad;

ii. pa mor aml y rhoddwyd sylw i'r pwnc;

iii. a yw'n berthnasol i ddyddiadau sy'n arwyddocaol neu o bwys cenedlaethol.

Ar achlysuron pan fydd slotiau ar gael ar fyr rybudd, bydd unrhyw geisiadau'n cael eu hasesu ar sail yr un meini prawf ag a nodir uchod.

Dylid nodi nad yw unrhyw gytundeb i gynnal gweithgaredd ar yr ystad yn warant o ddyraniad blynyddol.

## A oes effaith ar ddigwyddiadau galw heibio yn Nhŷ Hywel?

Cytunodd y Comisiynwyr i symud tuag at ddefnyddio un slot digwyddiad premiwm y mis (amser cinio dydd Mawrth neu ddydd Mercher) i dreialu Y Farchnad yn y Senedd. Cynhelir y rhain yn y Senedd o fis Mai am weddill 2024, a byddant yn cymryd lle y defnydd arferol o’r Ystafelloedd Ciniawa ar gyfer sesiynau ‘galw heibio’.

## Pryd fydd archebu ar gyfer digwyddiadau galw heibio yn Nhŷ Hywel yn dod i ben?

Ar ôl y Pasg, gyda rhai eithriadau y sonnir amdanynt isod.

## A fydd unrhyw ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yn Nhŷ Hywel?

Gellir cynnal digwyddiadau galw heibio o natur sensitif yn Nhŷ Hywel, lle na fyddai man digwyddiadau cyhoeddus yn briodol oherwydd y pwnc neu i annog cyfranogiad. Gall y tîm Lleoliadau gynghori ar y gofod mwyaf priodol.

Gellir cynnal digwyddiadau bach yn ystafelloedd cynadledda C a D yn Nhŷ Hywel, sef y lleoliad delfrydol ar gyfer seminar, lansio adroddiad, sgwrsio neu ddigwyddiad rhwydweithio. Mae slotiau ar gael ar ddydd Mawrth a dydd Mercher, rhwng 18:00-21:30 ar gyfer uchafswm o 60 o bobl, gan gynnwys hyd at 30 o westeion allanol. I archebu ystafelloedd cynadledda C a D, dewiswch ‘seminar / briff’ pan fyddwch yn cyflwyno'ch ffurflen archebu.

## Beth yw’r cynnig arall yn lle digwyddiadau galw heibio yn Nhŷ Hywel?

Fformat ‘marchnad’ a allai gymryd lle’r sesiynau galw heibio presennol, a gynhelir ar hyn o bryd yn yr Ystafelloedd Ciniawa. Y gobaith yw y bydd adleoli’r math hwn o weithgaredd i ardal Oriel y Senedd yn cynyddu capasiti ac yn ein galluogi i wahodd nifer o wahanol sefydliadau rhanddeiliaid i gymryd rhan ar yr un pryd. Y gobaith yw y bydd hyn yn cynnig cyfleoedd ymgysylltu tecach, yn gwella tryloywder y fformat, ac yn gwella awyrgylch y Senedd. Bydd hefyd yn rhyddhau cyfleusterau hybrid mawr eu hangen yn ochr weinyddol yr ystad.

## Pa mor aml fydd digwyddiad Y Farchnad yn digwydd?

I ddechrau, cynhelir Y Farchnad ar y trydydd dydd Mawrth o bob mis. Bydd pa mor aml y cynhelir digwyddiad Y Farchnad yn parhau i gael ei adolygu.

## Faint o'r gloch fydd digwyddiad Y Farchnad yn cael ei gynnal?

Gall sefydliadau fod yn bresennol rhwng 10:00 a 15:00 i osod eu stondin a defnyddio slot llawn y digwyddiad. Mae’r Aelodau yn dueddol o fod ar gael fwy rhwng 12:00-13:30, ac nid oes unrhyw rwymedigaeth ar sefydliadau i aros yn y Senedd am y cyfnod.

## A fydd Y Farchnad yn gyffredinol neu a fydd thema?

Cyffredinol i ddechrau. Bydd Y Farchnad yn agored i bob sefydliad ar sail y cyntaf i’r felin, gyda’r bwriad o ddenu mwy o ymgysylltiad gan Aelodau.

## A fydd diwrnodau/wythnosau/misoedd ymwybyddiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o fframwaith Y Farchnad?

Bydd, i raddau. Mae yna nifer fawr o ddyddiadau ymwybyddiaeth penodol ac felly byddai’n anodd bodloni ceisiadau pawb. Fodd bynnag, bydd diwrnodau ymwybyddiaeth yn cael ei ystyried.

## Pa feini prawf fydd ar waith ar gyfer stondin Y Farchnad?

Fel canllaw, bydd pob stondin yn cael bwrdd, gyda lle ar gyfer baner codi fach. Gall pob sefydliad ddod â thaflenni/adroddiadau a'u dyfais eu hunain fel gliniadur neu lechen er mwyn arddangos gwybodaeth. Mae WiFi agored ar gael yn y Senedd i bob sefydliad ei ddefnyddio tra byddant yn bresennol.

## A oes unrhyw hyblygrwydd gyda'r meini prawf?

Bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn rhan o’r canllawiau hyn, er enghraifft pan fo angen hebryngwr, ac yn enwedig pan fydd angen cyfraniadau gan unigolion sydd â phrofiad o fyw. Bydd tîm y Lleoliadau yn gallu cynghori, a bydd yn blaenoriaethu sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gyfrannu a chael eu clywed yn y gofod mwyaf priodol.

## A fydd darpariaeth Clyweledol?

Er mwyn gwneud y mwyaf o'r gofod a darparu'r un cyfle i bob sefydliad, ni fydd darpariaeth clyweledol ar gael. Bydd Y Farchnad yn drefniant syml heb unrhyw areithiau. Ar gyfer digwyddiadau unigol a noddir gan Aelod o’r Senedd - fel lansio adroddiadau lle bydd angen areithiau a chynulleidfa, gellir trefnu mannau digwyddiadau cyhoeddus fel arfer.

## A all Aelodau noddi mwy nag un sefydliad/stondin yn Y Farchnad?

Gall, mae'n rhesymol tybio y gallai mwy nag un sefydliad gysylltu ag Aelod i noddi stondin lle mae thema gyffredin e.e. gofal iechyd.

## A all mwy nag un Aelod noddi sefydliad/stondin yn Y Farchnad?

Gall, byddai cyd-noddi stondin, neu nifer o stondinau, yn cael ei ganiatáu pe bai'r Aelod yn dewis hynny.

## Sut y bydd gwahoddiadau’n gweithio os yw Aelod yn noddi mwy nag un stondin yn Y Farchnad?

Bydd tîm y Lleoliadau yn cwblhau gwahoddiad digidol cyn y digwyddiad yn nodi pa sefydliadau fydd yn bresennol a phwy yw'r Aelodau sy’n noddi. Bydd y wybodaeth hon hefyd yn cael ei harddangos ar sgriniau yn y Senedd ar y diwrnod.

## Sut bydd archebion ar gyfer Y Farchnad yn cael eu prosesu?

Bydd archebion yn cael eu prosesu ar sail y cyntaf i'r felin drwy'r ffurflen gais digwyddiad bresennol trwy ddewis yr opsiwn ‘Y Farchnad’ yn y gwymplen. Bydd archebion yn cau 2 wythnos cyn y digwyddiad.

## A fydd arlwyo ar gael?

Gall sefydliadau drefnu’n unigol i ddetholiad bach o frechdanau neu gacennau cri fod ar gael ar eu stondin, a bydd arlwywyr ar y safle yn y Senedd yn trefnu hyn ac yn codi tâl amdano.

Bydd lluniaeth ar gael yng nghaffi’r Senedd.

## A oes unrhyw leoedd eraill ar gael i'w harchebu?

Mae’n bosibl y bydd Ystafell Briffio’r Cyfryngau yn cael ei harchebu ar gyfer digwyddiadau briffio, gyda busnes y Senedd yn cael blaenoriaeth ar gyfer archebion. Sylwch na ellir newid y cynllun 50 mewn arddull theatr yn y gofod hwn.

Bydd “Cornel Siaradwyr” hefyd yn y Senedd i drafod materion cyfoes.

## A yw'r newidiadau i ddigwyddiadau galw heibio yn barhaol?

Bydd y dull hwn yn cael ei werthuso yn gynnar yn 2025 i gytuno ar drefniant parhaol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â **Lleoliadau@senedd.cymru** neu 0300 200 6218.